

Tasg 2

Tai bwyta gwahanol

Tŷ bwyta Tsieineaidd

Tŷ bwyta Indiaidd

Tŷ bwyta Eidalaidd

Tŷ bwyta Mecsicanaidd

Tŷ bwyta Japaneaidd

Mae llawer o wahanol fathau o dai bwyta, ond beth am ...

Tai bwyta toiled

Thema'r tai bwyta yma ydy'r toiled ac mae rholiau papur toiled, tywelion a phethau eraill o'r ystafell ymolchi ar y waliau. Mae pobl yn eistedd ar doiledau ac mae'r powlenni ar y bwrdd fel toiledau neu botiau bach. Mae llawer o dai bwyta toiled yn ne-ddwyrain Asia - yn China, Taiwan, Japan a Korea.


Tai bwyta Hospitalis

Mae tai bwyta arbennig iawn yn Riga, yn Latvia, a Jakarta, yn Indonesia – maen nhw'n edrych fel ysbyty. Mae'r waliau a'r byrddau'n wyn ac mae'r cadeiriau'n goch – cadeiriau olwyn ydyn nhw. Mae'r staff yn gwisgo dillad doctoriaid a nyrsys. Yma mae'n bosib bwyta bwyd sy'n edrych fel organau'r corff.



Oes tai bwyta 'gwahanol' yn eich ardal chi?

Geirfa	
tŷ bwyta, tai bwyta	restaurant, restaurants
math, mathau	kind, kinds
gwahanol	different
fel	like, such as
ysbyty	hospital
bwrdd, byrddau	table, tables
cadeiriau olwyn	wheelchairs
corff	body
ardal	area




1. Beth ydych chi'n feddwl o'r tai bwyta 'gwahanol' yma? Trafodwch hyn.

Dyma ychydig o help i chi:

Dw i'n meddwl bod y tai bwyta'n ... Dw i'n meddwl eu bod nhw'n ...		I think that the restaurants are ... I think that they're ...	
anaddas	inappropriate	hardd	beautiful
ardderchog	excellent	hyfryd	lovely
boblogaidd	popular	rhad	cheap
brysur	busy	rhagorol	excellent
dawel	quiet	rhyfedd	strange
droëdig	sick (disgusting)	smart	smart
ddiddorol	interesting	swnllyd	noisy
ddrud	expensive	wahanol	different
fodern	modern	wreiddiol	original
gyffrous	exciting		
Cofiwch roi rheswm!			

Hoffwn i fynd i ... achos hoffwn i weld ... flasu ... fwyta ... profi ...	I'd like to go to ... because I'd like to see ... taste ... eat ... experience..
Hoffwn i ddim gweld ... achos ... blasu ... bwyta ... profi ...	I wouldn't like to see ... because ... taste ... eat ... experience ...

2. Mewn grŵp, cynlluniwch dŷ bwyta ar thema arbennig. Meddyliwch am y pwyntiau yma:
 Pa thema?
 Pa fath o fyrddau / cadeiriau / waliau?
 Ydy'r staff yn mynd i wisgo dillad arbennig?
 Pa fath o fwyd? Gwnewch fwydlen a dangoswch y prisiau.



Dyma ychydig o help i chi:

Dw i eisiau thema ... Beth am gael thema ...? Beth am gael byrddau / cadeiriau / waliau ... (lliw)? Beth am wisgo ...?	I want a ... theme. What about having a ... theme? What about having ... (-coloured) tables / chairs / walls? What about wearing?
Mae thema ... yn syniad da achos Dw i'n meddwl bod bwyd ... yn syniad da achos ...	A ... theme is a good idea because ... I think that ... food is a good idea because ...
Na, dw i ddim yn hoffi'r syniad achos ... Mae'n well gen i thema ... na ... Mae'n well gyda fi fwyd ... na ...	No, I don't like the idea because ... I prefer a ... theme to ... I prefer... food to ...

3. Darllenwch yr hysbyseb yma:

Cystadleuaeth
Tai Bwyta Gwahanol Cymru

Ydych chi'n gwybod am dŷ bwyta gwahanol?


Ysgrifennwch aton ni. Dwedwch:

Ble?
Beth sy yn y tŷ bwyta?
Pam mae'n wahanol?
Pa fath o fwyd sy yn y tŷ bwyta?

Anfonwch at:
Y Trefnydd
Cystadleuaeth **Tai Bwyta Gwahanol Cymru**
Blwch Post 12
Llandysul

cystadleuaeth – competition
anfon – (to) send
trefnydd – organizer

Ysgrifennwch am eich tŷ bwyta chi.



4. Mewn grwpiau, darllenwch am y tai bwyta gwahanol.
Beth ydych chi'n feddwl o'r syniadau?

Defnyddiwch yr iaith yn y gridiau i'ch helpu chi.

Pa dŷ bwyta ydy'r un gorau?
Pam?

5. Ysgrifennwch i wahodd ffrind i un o'r tai bwyta yma. Cofiwch ddweud:

- pa dŷ bwyta
- ble mae'r tŷ bwyta
- pa fath o le ydy e
- pryd rydych chi'n mynd allan.

**Ydych chi'n cofio sut i wahodd?
Siaradwch am hyn mewn grŵp.**

